



Trech Troseddau mewn Ysgolion

Protocol ar gyfer yr Heddlu sy'n Cefnogi Ysgolion
gydag Achosion o Drosedd ac Anhrefn

Dogfen Gyfeirio
i Staff Ysgolion

Gweithio mewn Partneriaeth

Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan
All Wales School Liaison Core Programme

Heddlu'n diogelu plant Cymru drwy addysg atal troseddu
Police safeguarding the children of Wales through
crime prevention education

Rhagair

Mae'r pedwar Heddlu yng Nghymru wedi gweithio gydag ysgolion a'u cefnogi mewn amrywiaeth o ffyrdd ers sawl blwyddyn, yn bennaf drwy gyfranogiad ystafell ddozbarth a phlisma cefnogol. Ers Adolygiad 2016 o Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (RhGCYCG) mae'r pedwar Heddlu yng Nghymru wedi cadarnhau eu hymrwymiad i weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Felly dylai ysgolion chwarae rôl bwysig wrth geisio cael yr heddlu ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Mae'r protocol hwn yn rhoi gweithdrefnau ar gyfer delio â digwyddiadau mewn ysgolion er mwyn cael cysondeb o ran ymateb gan swyddogion yr heddlu ledled Cymru. Ni ddylai fod llawer o hyblygrwydd y tu allan i'r ddogfen hon o ran y ddyletswydd wirioneddol sydd ar swyddogion yr heddlu unwaith y byddant yn rhan o ddigwyddiad mewn ysgol.

Fodd bynnag, mae lefel uchel o hyblygrwydd a disgrisiwn o ran pryd neu os bydd y pennaeth yn galw'r heddlu. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r ffiniau y dylai swyddogion yr heddlu weithredu o fewn iddynt yn glir, ac hefyd yn gwneud argymhellion i roi cymorth i ysgolion.

Mae'r ddogfen hon yn ystyried y cyngor cynhwysfawr a roddwyd i ysgolion Cymru gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cefnogi'n llawn y cyngor a roddir yn y dogfennau canlynol:

Camdefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/130703-substance-misuse-guide-cy.pdf>

Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupil-supportguidance/?lang=cy>

Parchu Eraill: Canllawiau gwrth-fwlio

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/circulars/antibullying/?lang=cy>

Gwrthsafiad a Pharch: Datblygu Cydlyniant Cymunedol

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/respect-and-resilience-2015/?lang=cy>

Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150423-exclusion-guide-cy.pdf>

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf>

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r hyn sydd i'w ddisgwyl pan fydd yr heddlu yn rhan o ddigwyddiadau mewn ysgolion ac yn sicrhau perthynas waith gadarnhaol barhaus rhwng yr Heddlu ac ysgolion, yn seiliedig ar wybodaeth well, cydymddiriedaeth a dealltwriaeth. Fe'i cefnogir gan gyhoeddiad Llywodraeth Cymru **Canllawiau ar gyfer**

Ysgolion a Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY) yn Cydweithio: Rheoli Digwyddiadau Ymddygiad mewn Ysgolion

https://www.schoolbeat.org/uploads/media/Canllawiau_-_Rheoli_Digwyddiadau_Ymddygiad_mewn_Ysgolion.pdf

Bydd yr Heddlu bob amser yn ystyried diddordebau plant a phobl ifanc a byddant yn gweithio law yn llaw â dymuniadau a pholisiâu'r ysgol lle bynnag y bo'n bosibl.

Wrth gyfeirio at y ddogfen hon dylai penaethiaid roi sylw i unrhyw ganllaw lleol sydd ar waith a gynigir gan eu hawdurdod lleol a/neu'r Tîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau Lleol. Dylent hefyd roi sylw i unrhyw bolisiâu a fabwysiadwyd gan gorff llywodraethu'r ysgol.

Cytunwyd ar y protocol hwn a chafodd ei fabwysiadu gan y pedwar Heddlu yng Nghymru a'r Cyfarwyddwr Addysg yn genedlaethol.

Cynnwys

1.	Rolau a Chyfrifoldebau'r Heddlu	5
2.	Ymateb yr Heddlu i Ddigwyddiadau mewn Ysgolion	7
3.	Cofnodi ac Ymchwilio i Droseddau yn Ffurfiol mewn ysgolion	8
	▪ Cyffredinol	
	▪ Cwestiynu	
	▪ Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau	
	▪ Dulliau Adferol	
	▪ System Cyfiawnder Teuencid	
4.	Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau	13
	▪ Yr Ymateb Tair Haen	
	▪ Casglu a Gweinyddu	
	▪ Ymchwiliad Partneriaeth	
	▪ Difrifoldeb y Drosedd	
	▪ Chwilio Disgyblion am Gyffuriau a Nwyddau wedi'u Dwyn	
5.	Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006	16
	▪ Sgrinio a Chwilio Disgyblion am Arfau	
	▪ Defnyddio Grym Rhesymol	
6.	Cyfrinachedd	18
	Atodiad A: Gweithdrefnau Awgrymedig ar gyfer Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau	19
	Atodiad B: Enghreifftiau yn Cynnwys Cyfrinachedd	21

1. Rolau a Chyfrifoldebau'r Heddlu

O fewn cymunedau mae swyddogion yr heddlu yn cyflawni nifer o rolau gwahanol i ddarparu gwasanaeth plismona effeithiol i ysgolion. Isod mae rhestr o'r prif fathau o swyddogion y mae ysgolion yn debygol o fod mewn cysylltiad â nhw:

Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY): Mae'r swyddogion hyn yn ymrwymedig i gyflwyno gwersi RhGCYCG a darparu gwasanaethau plismona cefnogol mewn ysgolion. Cânt eu lleoli i sicrhau y caiff rhaglen unffurf, strwythuredig a phroffesiynol ei chyflwyno i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Mae pob swyddog yn gyfrifol am tua phedair ysgol uwchradd a'u hysgolion cynradd partner priodol.

Mae angen i'r swyddogion gymryd rhan lawn ym mywyd bob dydd yr ysgolion a helpu gyda phroblemau sydd angen sylw neu gyngor yr heddlu. Bydd angen iddynt ddeall polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn llawn a byddant yn ymdrechu i weithio o fewn eu ffiniau.

Mae'r ddogfen Canllawiau ar gyfer Ysgolion a Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion yn Cydweithio: Rheoli Digwyddiadau Ymddygiad mewn Ysgolion (Gweler <http://www.schoolbeat.org/cy/athrawon/>) yn rhoi gwybodaeth fanwl ynglŷn â phryd a sut y gellir defnyddio'r SHCY orau mewn ysgolion.

- **Timau Plismona yn y Gymdogaeth yn cynnwys Swyddogion Rhawd Cymdogaeth (NBO) neu Swyddogion Cymunedol a Ward:** Y swyddogion hyn sy'n gyfrifol am anghenion plismona eu cymdogaethau a'u cymunedau a nodir. Dylai'r swyddog hwn fod yn gyfarwydd â'r ysgol os yw o fewn ei ardal. Bydd yr NBO/CWO yn cysylltu'n agos â'r SHCY perthnasol ac yn rhoi cyswllt i'r gymuned yn gyffredinol. Byddant yn defnyddio dull plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau i ymdrin ag anghenion y gymuned ac yn gweithio'n agos â phartneriaid allweddol eraill o fewn y gymuned honno.
- **Swyddogion Ymateb:** Bydd y swyddogion hyn yn ymateb i alwadau brys a galwadau nad ydynt yn rhai brys pan fyddant yn eu derbyn. Os bydd un o'r swyddogion hyn yn ymateb i ddigwyddiad yn yr ysgol yna bydd yn cwblhau'r camau gweithredu angenrheidiol yn dibynnu ar y digwyddiad.

Bydd yn cysylltu â'r ysgol a'r SHCY/NBO i gytuno ar sut caiff y digwyddiad ei gwblhau.

- **Swyddogion Amddiffyn Plant:** Mae'r rhain yn swyddogion arbenigol sy'n ymchwilio i faterion amddiffyn plant megis cam-drin plant. Pan gaiff materion diogelu plant eu hadrodd, bydd yr Heddlu yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill o'ch Bwrdd Diogelu Plant Lleol (LSCB) megis yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i ymchwilio i'r honiad. Gall rhan o'r ymchwiliad hwn gynnwys ceisio gwybodaeth gefndir o'r ysgol mewn perthynas â lles y plentyn, neu o dan rai amgylchiadau, siarad â'r plentyn yn yr ysgol.
- **Rolau Heddlu Arbenigol Eraill:** Yn ogystal â'r rolau uchod bydd gan bob un o'r pedwar Heddlu yng Nghymru nifer o adrannau arbenigol a all gysylltu ag ysgol yn dibynnu ar amgylchiadau digwyddiad. Enghraifft dda o hyn fyddai materion megis troseddau casineb, a all fod â goblygiadau pellgyrhaeddol yn cynnwys materion cymhleth. Byddai adrannau heddlu arbenigol yn gallu darparu cyngor a chymorth arbenigol yn ymwneud â materion o'r fath a chael cysylltiadau cryf â chymunedau lleiafrifoedd ac asiantaethau allweddol.

Anogir ysgolion i drafod yn agored a cheisio cyngor gan eu SHCY dynodedig. Bydd gan SHCYau wybodaeth dda am adrannau heddlu arbenigol a gallant greu cyswllt uniongyrchol â'r adrannau lle y bo angen.

2. Ymateb yr Heddlu i Ddigwyddiadau mewn Ysgolion

Y diffiniad o drosedd yw:-

Caiff trosedd ei chyflawni os bydd person yn methu ymddwyn yn unol â'r Gyfraith

Wrth benderfynu a ddylid cysylltu â'r Heddlu yn ymwneud â digwyddiad mewn ysgol bydd angen ystyried difrifoldeb y digwyddiad. Felly gellir canfod difrifoldeb digwyddiad drwy ystyried yr atebion i'r cwestiynau canlynol. Os bydd y pennaeth yn ystyried ateb CADARNHAOL i unrhyw un o'r cwestiynau isod, ac yn ystyried bod y digwyddiad yn argyfwng yna **ffoniwch 999** i gael presenoldeb heddlu ar unwaith.

- A oes unrhyw berygl uniongyrchol difrifol yn bresennol?
- A oes anaf difrifol wedi bod neu a oes potensial i gael anaf difrifol?
- A yw'r drosedd yn mynd rhagddi neu ar fin cael ei chyflawni?
- A oes troseddwr yn bresennol?
- A fydd tyst yn cael ei golli os na fydd yr heddlu'n cyrraedd yn gyflym?
- A oes potensial clir y caiff trosedd arall ei chyflawni?
- A oes dioddefwr trosedd yn pryderu'n eithafol?

Lle y bo'n bosibl, bydd swyddogion yr heddlu sy'n ymateb yn gwneud y canlynol:

- Cysylltu â'r pennaeth neu'r person a enwir
- Peidio â chofnodi nac ymchwilio i drosedd mewn ysgol yn ffurfiol oni fydd yr ysgol, y dioddefwr, neu'r rhiant / gwarcheidwad yn gofyn iddynt wneud hynny
- Ond yn arestio plant a phobl ifanc mewn ysgolion mewn amgylchiadau eithafol a phan fydd yn hollol angenrheidiol
- Defnyddio dulliau cyfiawnder adferol a Chosbau Adferol i Bobl Ifanc (YRD) os yw'n briodol
- Rhoi gwybod i'r SHCY

Os nad yw'r digwyddiad o natur frys, ond bod angen i'r heddlu fod yn bresennol, yna dylai ysgolion roi gwybod am y digwyddiad drwy'r gwasanaeth **101**.

Yn achos digwyddiad nad yw'n argyfwng, neu os bydd angen gofyn am gyngor, efallai y bydd ysgolion am gysylltu â'r SHCY. Bydd yr SHCY yn rhoi cyngor ac yn trefnu i'r heddlu fod yn bresennol os oes angen.

Mae ysgolion yn gweithredu *in loco parentis* pan fydd disgyblion yn yr ysgol neu'n rhan o weithgareddau a arweinir gan yr ysgol, ac efallai y byddant am ddelio â rhai digwyddiadau yn fewnol, yn hytrach na chynnwys yr heddlu. Yn yr achosion hyn, gofynnir i'r ysgol roi gwybod i'r SHCY am y manylion o hyd er gwybodaeth. Gall yr SHCY hefyd fod mewn sefyllfa i gyfrannu drwy ddarparu gwybodaeth arall, a all effeithio ar benderfyniad yr ysgol. Gall peidio â rhoi gwybod am drosedd ac felly peidio â nodi'r troseddwr, os yw'n hysbys neu yr amheuir, fod yn wrth-gynhyrchiol i ysgol a'r gymuned ehangach yn y pen draw.

Ni ddylai ysgolion fyth bryderu am gysylltu â'u SHCY i gael cyngor - mae hyn yn rhan o'u rôl.

3. Cofnodi ac Ymchwilio i Droseddau yn Ffurfiol mewn Ysgolion

Mae'r ddogfen Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (2006) yn darparu fframwaith ar gyfer cynnwys, gyda chanllawiau ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol (ALI). Mae'n gofyn i ysgolion gynnal lefelau uchel o bresenoldeb ac ymddygiad cadarnhaol, a chefnogi disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol i atal disgyblion rhag ymddieithrio ag addysg. Mae'n cefnogi'r egwyddor o addysg gynhwysol fel cofrestru pob plentyn mewn ysgolion prif ffrwd, oni fod rhesymau cymhellol dros beidio â gwneud hynny. Mae gan benaethiaid a staff eraill ysgolion gyfrifoldeb i ddelio â digwyddiadau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc mewn ysgol a'u cofnodi yn y lle cyntaf er efallai y penderfynir yn hwyrach bod rhai achosion yn gyfystyr ag ymddygiad troseddol. Ond os mai hyn yw'r achos, byddai'n fuddiol i roi gwybod i'r Heddlu am y digwyddiad. Pan fydd 'amgylchiadau eithriadol' yn digwydd sy'n arwain at waharddiad parhaol (fel y'i diffinnir yn: Rhan 1 o ganllaw Llywodraeth Cymru: Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion) byddai disgwyliad uchel gan yr Heddlu y byddant yn cael gwybod ac yn cymryd rhan.

Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, yr Adran Addysg yn Lloegr a'r Swyddfa Gartref wedi datblygu canllaw ar y cyd i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn â chofnodi troseddau yn ffurfiol gan swyddogion yr heddlu mewn ysgolion. (Er nad oes gan yr Adran Addysg unrhyw bwerau yng Nghymru,

mae'r Swyddfa Gartref yn nodi safonau cofnodi trosedd ar gyfer Lloegr a Chymru ac felly mae'r cytundeb hwn yn gymwys i Gymru.) Mae Is-Grŵp Cofnodi Trosedd Cenedlaethol y Swyddfa Gartref (NCRS) wedi cytuno ar y canlynol:-

Nid oes unrhyw ddyletswydd gyfreithiol ar ysgolion i roi gwybod i'r Heddlu am droseddau. Pan fydd swyddogion yr heddlu sy'n gweithio mewn ysgolion neu'n eu mynychu, yn dyst neu y rhoddir gwybod iddynt am drosedd a ddigwyddodd yn yr ysgol, bydd y canlynol yn gymwys:-

- Ni ddylid cofnodi trosedd i ddechrau, ond dylid tynnu sylw'r pennaeth at y digwyddiad cyn gynted â phosibl a gwneud penderfyniad ar y cyd.
- Ni fydd swyddog yr heddlu yn cofnodi nac yn ymchwilio'n ffurfiol i unrhyw ddigwyddiad mewn ysgol fel trosedd, oni ofynnir iddo wneud hynny, **neu lle y bo mor ddifrifol fel bod hynny'n angenrheidiol (gweler isod)**. Os bydd hyn yn angenrheidiol bydd cofnod trosedd ffurfiol yn cael ei greu.
- Bydd yr Heddlu, lle y bo'n bosibl, yn dilyn dymuniadau'r ysgol ac yn gweithio o fewn polisi'r ysgol.
- Ym mhob achos bydd yr Heddlu yn ceisio dod i gytundeb ar y cyd gyda'r ysgol.
- Os bydd rhieni yn rhoi gwybod i'r Heddlu y tu allan i oriau'r ysgol am ddigwyddiad yn yr ysgol yn ystod oriau'r ysgol, yna dylid delio â'r digwyddiad yn unol â'r Protocol Trechu Troseddau mewn Ysgolion hwn, a dylid hysbysu'r ysgol o'r canlyniad.

Pryd mae'r Heddlu yn rhwym i gofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiad mewn ysgol yn ffurfiol?

Os bydd unrhyw un o'r meini prawf canlynol yn gymwys mae'n rhaid i swyddogion gofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiad yn ffurfiol:-

- Mae'r swyddog o'r farn ei fod yn ddigwyddiad difrifol fel y'i diffinnir isod:-

Mae digwyddiad difrifol yn un sydd wedi arwain neu sydd â'r nod, neu sy'n debygol neu'n bygwth arwain at niwed neu golled difrifol i unrhyw blentyn ysgol yn ôl barn swyddog yr heddlu, plentyn neu berson ifanc, rhiant neu warcheidwad neu gynrychiolydd y plentyn.

Neu

- Mae'r ysgol yn gofyn bod y digwyddiad yn cael ei ddsbarthu'n ffurfiol fel 'trosedd',

Neu

- Mae unrhyw ddioddefwr, ei riant/gofalwr neu gynrychiolydd y plentyn yn gofyn i'r Heddlu greu cofnod troseddol.

Cwestiynu plant a phobl ifanc ac ymchwiliadau heddlu ffurfiol

Pan fydd dyletswydd ar yr Heddlu i gyfweld â phlant neu bobl ifanc, yna bydd angen i riant/gwarcheidwad neu oedolyn priodol arall fod yn rhan o'r broses.

Pan fydd ysgol yn credu y gall ymchwiliad heddlu ffurfiol fod yn angenrheidiol, yna dylai staff yr ysgol gwestiynu tystion ifanc a throseddwy'r posibl cyn lleied â phosibl. Dylai fod yn ddigon i gasglu'r ffeithiau sylfaenol yn unig. Gall unrhyw gwestiynu pellach effeithio ar dystiolaeth a rhwystro ymchwiliad yr heddlu (gellir esbonio hyn ymhellach gan yr SHCY os oes angen).

Dylid cofnodi unrhyw gwestiynu neu gyfweld â phlant a phobl ifanc gan yr ysgol yn ysgrifenedig a'i gadarnhau gan aelod arall o staff lle y bo'n bosibl.

Pan fydd honiad o ddiogelu plant wedi'i ddatgelu i aelod o staff yr ysgol, mae'n rhaid gweithredu polisiâu diogelu'r ysgol ac mae'n rhaid dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant lleol.

(<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-learners-safe/?lang=cy>)

Mae'r SHCY ar gael i ysgolion gysylltu â nhw i gael cyngor.

Yn ogystal, mae'r canlynol yn gymwys i ddiwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau

- Bydd bod ym meddiant rhai sylweddau a reolir megis - Cannabis, Ecstasi, Heroin, LSD, Cocêen, Crac Cocêen ac ati bob amser yn cael ei ystyried yn 'ddifrifol' a'i gofnodi fel trosedd.
- Bydd digwyddiad bob amser yn cael ei ystyried yn ddifrifol a'i gofnodi fel trosedd os bydd y sylwedd a reolir wedi cael ei roi i unrhyw berson arall neu os bwriedir gwneud hynny, p'un ai ar gyfer ennill neu beidio.

Pwyntiau i'w hystyried

Os bydd y digwyddiad yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf uchod, mae'n rhaid ei ddisbarthu fel trosedd ac ymchwilio iddi. Fodd bynnag, os nad yw'r digwyddiad yn bodloni'r meini prawf uchod dylid ystyried y pwyntiau canlynol:

- Dymuniadau'r dioddefwr (a rhiant/gofalwr lle y bo'n briodol)
- Dymuniadau'r ysgol
- Nodweddion sy'n gwaethygu'r sefyllfa - er enghraifft bwlio hiliol neu homoffobig
- Difrifoldeb unrhyw anaf a gafwyd/natur y bygythiad i'r dioddefwr
- Lefel/gwerth y niwed a achoswyd (Mae'n amhosibl mesur ffiniau ar lefel niwed gan fod hyn yn oddrychol i bob dioddefwr/achwynydd)
- Tebygolrwydd o ddigwyddiad arall
- Perthynas flaenorol rhwng y dioddefwr a'r troseddwr
- Effaith bosibl ar y plentyn/person ifanc yn dilyn cyfraniad ffurfiol yr Heddlu
- Effeithiolrwydd camau gweithredu'r heddlu/achosion llys
- Lles pennaf y ddau yn y dyfodol
- Y neges yr anfonir at blant neu bobl ifanc eraill
- Argaeledd camau gweithredu amgen; gall enghreifftiau gynnwys dulliau adferol, gyda chaniatâd y dioddefwr (gweler isod), neu'r defnydd o Gontractau Ymddygiad Derbyniol (gweithdrefn y Swyddfa Gartref a ddefnyddir i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol) ac ati.

Dulliau Adferol

Fel mesur ataliol, mae dull adferol yn canolbwyntio ar leihau nifer y bobl ifanc sy'n mynd yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol drwy ddwyn pobl ifanc i gyfrif am eu gweithredoedd. Gyda dulliau adferol gall yr holl gymuned ysgol a rhieni fod yn rhan ohonynt. Nid yw dulliau adferol mewn lleoliadau ysgol yn gweld camymddwyn fel torri rheol ysgol yn unig ond hefyd fel trosedd yn erbyn pobl a pherthnasau yn yr ysgol. Mae swyddogion ysgol wedi cael eu hyfforddi ac maent ar gael i hwyluso neu gefnogi'r dull adferol mewn lleoliadau ysgol, pan fo angen.

System Cyfiawnder Ieuentid

Mae nifer o warediadau ffurfiol ar gyfer pobl ifanc o fewn y System Cyfiawnder Ieuentid. Gall yr isod i gyd helpu ac maent wedi'u hategu gan asesiadau, cymorth a rhaglen wyro -

1. Camau Adfer Ieuentid (Ddim yn gollfarn droseddol)
Y ffocws yw gwella'r niwed a achoswyd a gall gynnwys gwneud iawn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
2. Rhybuddiad Ieuentid
Mae'r Rhybuddiad Ieuentid yn warediad ffurfiol y tu allan i'r llys
Mae cyfranogi yn yr ymyriad wrthdyniadol yn wirfoddol ac nid oes cosb ar wahân am fethu â chydymffurfio.
3. Rhybuddiad Ieuentid Amodol
Mae Rhybuddiad Ieuentid Amodol yn warediad ffurfiol y tu allan i'r llys.
Mae asesiad ac ymyriad wrthdyniadol yn orfodol.
Mae'n rhaid i'r person ifanc hefyd gytuno i dderbyn y Rhybuddiad Ieuentid Amodol ac unrhyw amodau sydd ynghlwm.
Mae diffyg cydymffurfio â'r rhaglen wrthdyniadol neu ymyrraeth yn arwain at arestio'r person ifanc.
4. Erlyniad
Mae'r person ifanc yn mynd i'r llys neu cyflwynir adroddiad gwysio.

4. Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau

Mae camddefnyddio sylweddau a reolir o fewn ysgol yn fater difrifol ac mae'n hanfodol bod yr ymateb yn brydlon ac yn effeithiol. Wrth ymateb i ddigwyddiadau caiff ysgolion eu harwain gan:

Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau 107/2013

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/130703-substance-misuse-guide-cy.pdf>

Joining Forces - Guidance for police working with schools and colleges.

<http://www.drugwise.org.uk/wp-content/uploads/JoiningForcesACPO.pdf>

Mae'r pedwar heddlu yn cefnogi'r cyngor a'r canllawiau a nodir yn y dogfennau hyn yn llawn. Mae hefyd angen ystyried argymhellion ychwanegol ac arferion gwaith y cytunwyd arnynt rhwng heddluoedd Cymru ac ysgolion ynglŷn ag achosion o gamddefnyddio sylweddau. Mae cyngor yn datgan y dylai ysgolion gysylltu'n agos â'u heddlu lleol i sicrhau bod polisi lleol y cytunwyd arno ar gyfer delio â'r amrywiaeth o achosion o gyffuriau anghyfreithlon a allai godi. Bydd yr SHCY yn darparu'r cyswllt hwnnw.

Cyfrifoldeb penaethiaid (yn hytrach na'r Heddlu) yw penderfynu a ddylid hysbysu'r ALI am achosion o gyffuriau anghyfreithlon o fewn ysgolion a ph'un a ddylid hysbysu rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr am achosion o gamddefnyddio sylweddau. Er nad oes unrhyw ofyniad statudol i hysbysu'r Heddlu, byddai'r Swyddfa Gartref yn disgwyl i'r Heddlu gael gwybod pan gaiff cyffuriau eu darganfod ar blentyn neu yn yr ysgol. Mae pob heddlu yn gofyn bod ysgolion yn rhoi gwybod am bob digwyddiad o'r fath yn unol â chanllawiau ALI sefydledig, hyd yn oed pan fydd ysgolion yn bwriadu delio â'r digwyddiad yn fewnol. Gall yr ysgol ddad-bersonoli unrhyw wybodaeth a roddir i'r Heddlu.

Mae canllawiau wedi'u hysgrifennu i helpu'r ysgol a'r heddlu i ffurfio partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn unol â'r cyngor Llywodraeth presennol a amlinellwyd yn:

Joining Forces: Drugs Guidance for Police Working with Schools and Colleges,

<http://www.drugwise.org.uk/wp-content/uploads/JoiningForcesACPO.pdf> ,

Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/130703-substance-misuse-guide-cy.pdf>

Mae angen dull amlasiantaethol o weithredu er mwyn i strategaethau fod yn

llwyddiannus, yn rhagweithiol (addysgol) yn ogystal ag adweithiol (mewn ymateb i ddigwyddiadau penodol).

Nod yr Heddlu yw cadw plant a phobl ifanc i ffwrdd o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae nifer o opsiynau heblaw am erlyniad y gellir eu hystyried mewn rhai amgylchiadau. Ymdrinnir â digwyddiadau drwy ystyried pob ffactor a gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, rhieni a gwarcheidwaid.

Yn ddelfrydol, bydd gan ysgolion gydberthynas waith gryf â'r SHCY eisoes, yn seiliedig ar ymddiriedaeth, lle gall y ddau gael eu hysbysu'n rheolaidd a chymryd rhan wrth wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer pawb. Bydd dymuniadau'r ysgol a'i pholisïau mewnol bob amser yn cael eu hystyried a'u parchu pan gaiff penderfyniad ei wneud ynglŷn ag unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol.

Yr Ymateb Tair Haen

Mae tair prif lefel o ymateb y gall yr Heddlu eu darparu wrth ymateb i achosion o gamddefnyddio sylweddau:

1. Casglu a gweinyddu unrhyw sylweddau a amheuir
2. Ymchwiliad partneriaeth
3. Ymchwiliad heddlu ffurfiol

1. Casglu a Gweinyddu

Mae arfer gorau yn awgrymu y dylai'r Heddlu, sydd â pholisïau a gweithdrefnau clir at y diben hwn, waredu sylweddau anghyfreithlon a amheuir lle bynnag y bo'n bosibl (Gweler Atodiad A ar gyfer canllawiau gweithdrefnol). Gellir dychwelyd cyffuriau presgripsiwn at fferyllfa.

2. Ymchwiliad Partneriaeth

Argymhellir naill ai lle mae sylwedd anghyfreithlon a amheuir wedi'i ddarganfod y gellir ei gysylltu ag unigolyn neu mae'r ysgol yn credu bod rhywun yn meddu ar sylwedd anghyfreithlon bod y canlynol yn gymwys:

- Os bydd staff wedi adfer y sylwedd, yna cwblhau'r camau ym mhwynt 1

ynglŷn â chadw a chasglu gan yr heddlu ac ati.

- Os bydd staff yn amau bod unigolyn yn meddu ar sylwedd o hyd ac yn gwrthod cydweithredu, efallai y bydd angen yr Heddlu ar yr ysgol i helpu gyda chwiliad. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd angen ymateb cyflym ar ysgolion a dylent gysylltu â 101, rhif ffôn yr heddlu ar gyfer galwadau nad ydynt yn argyfwng. Hysbysir yr SHCY perthnasol a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf cyn gynted â phosibl.

Pan gysylltir â'r Heddlu, bydd angen gwneud penderfyniad ynglŷn â sut i ddelio â'r digwyddiad. Mae'r SHCY yno i helpu ac i roi cyngor. Pan fydd yr ysgol a'r Heddlu yn penderfynu y gellir delio â digwyddiad yn fewnol gan yr ysgol, yna bydd yn rhaid i'r ddau ystyried camau gweithredu a chymorth amgen i unigolyn e.e. rhaglenni cymorth bugeiliol, dulliau adferol ac ati.

Pan fydd person ifanc yn mynd drwy'r System Cyfiawnder Ieuenctid yn ffurfiol byddant yn cael mynediad amlasiantaeth drwy'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (YOS) yn awtomatig. Bydd YOS yn asesu troseddwr ifanc a'r ffactorau risg yn eu bywydau. Yna caiff cynllun gweithredu ei lunio ar gyfer y person ifanc. Dylai ysgol sy'n delio â digwyddiad yn fewnol ystyried hyn, oherwydd gellir colli cymorth buddiol gan asiantaethau allweddol i'r person ifanc hwnnw o bosibl.

3. Archwiliad yr Heddlu

Dylid hyn gael ei gynnal, gyda chydweithrediad yr ysgol os yn bosibl. Mae'n bosibl y bydd swyddogion gwahanol ac nid y SHCY fydd yn cynnal unrhyw archwiliad ffurfiol ac yn gyfrifol am hysbysu'r ysgol am wybodaeth sydd ar gael e.e. fel y cyfeirir ato yn: "Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion" (Rhan 5). Fodd bynnag, bydd y SHCY yn parhau i fod yn bwynt cyswllt drwy gydol yr archwiliad, a gall hefyd gynghori a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses i'r ysgol.

Chwilio Disgyblion am Gyffuriau neu Nwyddau wedi'u Dwyn

Heb ganiatâd, gall staff awdurdodedig yr ysgol ond cynnal chwiliadau personol o ddisgyblion, eu dillad neu eu heiddo personol mewn perthynas â chwilio am arfau ac os oes ganddynt amheuaeth resymol bod arf yn cael ei gario (fodd bynnag gallant ofyn i ddisgyblion wacau pocedi, bagiau ac ati.). Os bydd ymdrechion i berswadio disgybl i drosglwyddo sylwedd

anghyfreithlon a amheuir, eiddo wedi'i ddwyn ac ati wedi methu, ac mae'r ysgol yn dymuno parhau yn ffurfiol, yna dylid galw'r Heddlu i gynnal y chwiliad. Ni all ysgolion gadw person yn gaeth heb ei ganiatâd at ddiben chwilio ar gyfer cyffuriau neu nwyddau wedi'u dwyn. Fodd bynnag gall swyddogion yr heddlu gynnal chwiliadau personol cyfyngedig mewn ysgolion neu gadw'r rheini a ddrwgdybir yn gaeth at ddibenion gwneud hynny.

Gall staff ysgol chwilio eiddo ysgol, e.e. loceri neu ddesgiau, er y dylid ceisio caniatâd ymlaen llaw. Bydd angen i ysgolion gydbwyso'r tebygolrwydd bod trosedd wedi digwydd yn erbyn y risg o amharu ar breifatrwydd yr unigolyn heb achos cyfiawn.

Noder: Pan na fydd arestiad wedi digwydd, gall swyddog yr heddlu chwilio plant unigol, lle mae amheuaeth resymol, am gyffuriau neu eiddo wedi'i ddwyn. Er mwyn chwilio loceri personol ysgol mae'n rhaid cael caniatâd y Pennaeth neu berson awdurdodedig. Os na roddir caniatâd, gall swyddog wneud cais i Lys Ynadon am warant chwilio i ddod i mewn i'r ysgol a chynnal y chwiliad.

5. Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006

Chwilio neu Sgrinio Disgyblion am Arfau

Mae'n drosedd i gario arf mewn ysgol. Mae Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006, (Hydref 2010) yn rhoi'r pŵer, ond nid y ddyletswydd, i benaethiaid a staff awdurdodedig wneud y canlynol:

- Chwilio disgyblion yr amheuir eu bod yn cario arf heb ganiatâd neu fel arall ffonio'r Heddlu. Rhaid cefnogi amheuaeth gyda chudd-wybodaeth neu wybodaeth. Gellir ond cynnal chwiliadau ym mhresenoldeb dau aelod o staff o'r un rhyw â'r disgybl. Gall staff dynnu dillad allanol a chwilio pocedi, ond mae angen yr Heddlu ar gyfer chwiliadau mwy personol.
- Gallai ysgolion eisoes sgrinio heb amheuaeth unrhyw ddisgybl ar gyfer cylllell neu arf arall i ddiogelu disgyblion fel rhan o'u polisi ymddygiad cyffredinol. Diffinnir sgrinio fel cerdded drwy fwa neu ddatgelydd metel â llaw (bwa neu ffon) h.y. dim cyswllt neu gyswllt isel (dim archwiliad â llaw)

YM MHOB ACHOS

Os bydd y Pennaeth neu berson awdurdodedig yn ystyried ateb CADARNHAOL i unrhyw un o'r cwestiynau isod yna **FFONIWCH 999** i gael presenoldeb heddlu ar unwaith

- A yw'r aelod o staff yn credu ei fod ef/ei bod hi neu unrhyw berson arall mewn perygl?
- Nid oes dau aelod o staff o'r un rhyw (â'r disgybl) ar gael i gynnal y chwiliad?
- A yw'r plentyn wedi ffoi o'r lleoliad i wrthsefyll y chwiliad?

Mae canllawiau ar wahân ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol am chwilio a sgrinio disgyblion am arfau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Defnyddio Grym Rhesymol

Er ei fod yn gyfreithlon i staff ysgol ddefnyddio grym rhesymol, byddai'n well cysylltu â'r heddlu pan yr amheuir bod disgybl yn cario arf a'i fod yn debygol o wrthsefyll yn gorfforol, yn hytrach na defnyddio grym i barhau i chwilio.

Os caiff cylllell anghyfreithlon neu arf arall ei atafaelu gan ddisgybl mae'n rhaid trosglwyddo'r arf i'r Heddlu.

Noder: Diffinnir arf fel unrhyw eitem a wnaed neu a addaswyd i anafu person, neu unrhyw eitem y mae person yn bwriadu ei defnyddio i achosi anaf i rywun arall. Gallai hyn gynnwys cylllell, a ddiffinnir fel unrhyw eitem sydd â llafn pigfain llym. Nid yw hyn yn cynnwys cylllell boced wedi'i phlygu oni fod y llafn yn fwy na 3 modfedd neu nad yw wedi'i phlygu bob amser.

Mae canllawiau ar wahân ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol am ymyrraeth gorfforol a defnyddio grym rhesymol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

6. Cyfrinachedd

Pan fydd SHCY yn cyfrannu at wersi mewn ysgolion, bydd buddiannau dysgu amlwg o ddisgyblion yn rhannu eu profiadau, eu teimladau a'u barn, mewn amgylchedd dysgu diogel.

Ni fydd disgyblion yn cael eu hannog i ddatgelu gwybodaeth a chuddwybodaeth am drosedd lleol gan swyddogion yr heddlu sy'n cyflwyno gwersi i ysgolion. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan fydd disgyblion yn datgelu gwybodaeth benodol oherwydd natur y pwnc sy'n cael ei drafod.

Pan fydd yr achosion hyn yn codi, cedwir cyfrinachedd o fewn yr ystafell ddosbarth lle bynnag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, rhaid deall oherwydd natur eu cyfrifoldebau efallai y bydd adegau pan fydd dim dewis gan y swyddog heddlu ond cymryd camau pellach mewn perthynas â'r wybodaeth a ddatgelwyd. Yn benodol, yn yr achosion canlynol:-

- Datgelir troseddau.
- Mae rhywun mewn perygl neu'n wynebu risg o niwed personol.

Ym mhob achos tynnir sylw'r pennaeth at ddatgeliadau o'r fath. Pan fydd digwyddiadau a ddatgelwyd wedi digwydd o fewn yr ysgol, yna maent yn syrthio'n glir o fewn y gweithdrefnau yn y ddogfen hon. Ceisir barn yr ysgol, troseddwr ac ati cyn penderfynu a ddylid mynd â'r mater ymhellach.

Pan fydd digwyddiadau a datgelir wedi digwydd i ffwrdd o'r ysgol ac mae'n rhaid cymryd camau pellach, rhoddir gwybod i'r pennaeth am y datgeliad. Bydd unrhyw ymchwiliad pellach gan yr Heddlu yn digwydd fel y bo'n ofynnol. Lle y bo'n briodol, bydd yr ysgol yn rhan o'r broses hon ar y cyd.

Ni fydd yr Heddluoedd yn rhyddhau datganiadau i'r wasg o ran atafaelu cyffuriau mewn ysgolion, ac eithrio mewn achosion o bryder i ddiogelwch y cyhoedd neu pan ellir peryglu archwiliad i droseddau difrifol fel arall. Cyn unrhyw ddatganiad i'r wasg, cytunir ar ymateb i'r cyfryngau ar y cyd gan yr ysgol a'r Heddlu.

Atodiad A

Gweithdrefnau Awgrymedig ar gyfer Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau

Ar y cyd â'r SHCY, mae angen ystyried a yw polisi'r ysgol yn cydymffurfio â'r canlynol er mwyn sicrhau nad oes trosedd meddiant neu gyflenwi yn digwydd.

Cyffuriau/alcohol/toddyddion a ddarganfyddir mewn ysgolion

Pan gaiff sylwedd a amheuir ei ddarganfod neu ei adfer mewn ysgol, mae'r Heddlu yn argymhell y canlynol:

- ❑ Os bydd rhywun mewn perygl posibl neu'n debygol o fod mewn perygl o niwed - ffoniwch 999.
- ❑ Sicrhau bod tyst i'r atafaeliad yn ychwanegol at aelod arall o staff.
- ❑ Cadwch ef mewn lle addas tra'n aros i'r heddlu gyrraedd.
- ❑ Cofnodwch holl fanylion y digwyddiad, camddefnyddio neu atafaelu.
- ❑ Cysylltwch â'r SHCY i gael cyngor.
- ❑ Cysylltwch â 101 i drefnu presenoldeb yr heddlu a gwneud trefniadau ar gyfer gwaredu.
- ❑ Ni ddylai staff geisio dadansoddi na blasu unrhyw sylwedd na nodwyd.

Athro yn amau bod disgybl o dan ddylanwad cyffuriau/alcohol/toddyddion

- ❑ A oes gan y disgybl hawl cyfreithlon i feddu ar y cyffur / sylwedd?
- ❑ A oes amheuaeth bod y cyffur / sylwedd yn anghyfreithlon a / neu'n torri cod disgyblaeth yr ysgol? Os felly, dylid ceisio cyngor yr heddlu, os oes angen.
- ❑ Ceisiwch gyngor meddygol os oes angen. Mae'n bwysig gwybod beth yw'r sylwedd os oes angen triniaeth feddygol.
- ❑ Cymerwch feddiant a'i gadw yn ddiogel.
- ❑ Gallai fod angen chwilio. Caniateir i aelodau o staff chwilio desgiau neu loceri disgyblion, sy'n perthyn i'r ysgol, ar amheuaeth o feddiant o gyffuriau anghyfreithlon (er y dylid ceisio caniatâd ymlaen llaw). Ni ddylai staff chwilio myfyriwr yn gorfforol na'i eiddo personol. Fodd bynnag gall staff ofyn i'r myfyriwr wacau ei bocedi/ei phocedi neu fag. Os caiff

caniatâd ei wrthod yna esboniwch mai'r unig opsiwn yw bod y staff yn ffonio'r Heddlu i gwblhau'r chwiliad. Gellid dehongli unrhyw chwiliad dan orfod gan staff fel ymosodiad. Mae gan yr Heddlu bwerau chwilio yn ymwneud â phobl a lleoliadau a byddant yn gallu helpu.

Mae gan athro/athrawes wybodaeth bod trosedd neu gyflenwi neu werthu alcohol / sigarêts / toddyddion / sylweddau anghyfreithlon yn digwydd yn yr ardal leol

Yn ogystal â'r polisi ysgol, argymhellir y canlynol:-

- Mae'r ysgol yn hysbysu'r SHCY fel y gellir cymryd camau i ddiogelu'r plant a'r bobl ifanc yng nghyffiniau'r ysgol ac i nodi tueddiadau. Yn achos camddefnyddio sylweddau a amheuir, dylid gwneud hyn ar y cyfle cyntaf.

Mae disgybl yn datgelu bod:-

- **ef neu hi yn defnyddio cyffuriau / alcohol / toddyddion**
 - **rhieni / gofalwyr / perthnasau yn camddefnyddio / gwerthu cyffuriau / alcohol / toddyddion**
 - **ffrindiau yn camddefnyddio / gwerthu cyffuriau / alcohol / toddyddion**
- Cyfeiriwch at bolisi'r ysgol.
 - Cysylltwch â SHCY yr ysgol i gael canllawiau, cyngor neu gymorth. Dylid cofio efallai na fydd cyfrinachedd cyflawn yn bosibl.
 - Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud mewn ymgynghoriad â'r SHCY, mae'r camau gweithredu sy'n agored i chi eisoes wedi'u hamlinellu.

Atodiad B

Enghreifftiau yn cynnwys cyfrinachedd

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o weithdrefnau a gynhaliwyd gan SHCY. Mae'n bwysig cofio bod y swyddog yn esbonio'r cytundeb ystafell ddosbarth sy'n cwmpasu mater cyfrinachedd ar ddechrau bob gwrs.

- 1. Yn ystod gwrs am ddwyn mae person ifanc yn datgelu bod gan ei rieni deledu gartref y maent yn gwybod ei bod wedi'i dwyn.**
 - Byddai'r swyddog yn rhwym i edrych i mewn i'r mater hwn ymhellach.

- 2. Yn ystod gwrs am ddwyn mae sawl disgybl yn datgelu eu bod wedi dwyn pethau yn y gorffennol.**
 - Byddai'r wybodaeth hon siŵr o fod yn aros o fewn yr ystafell ddosbarth ac yn cael ei thrafod yn unol â hynny yn dibynnu ar werth yr eiddo a'r cyfnod o amser ers y digwyddiad. Fodd bynnag, petai'r datgeliad yn berthnasol i ymchwiliad parhaus i drosedd a gofnodwyd yna efallai y byddai'n rhaid i'r swyddog gymryd camau pellach.

- 3. Yn ystod gwrs am gamddefnyddio sylweddau mae person ifanc yn datgelu ei fod wedi profi sylwedd anghyfreithlon megis Cannabis o'r blaen.**
 - Ar yr amod nad oes unrhyw faterion diogelu posibl bydd y swyddog yn ceisio anrhydeddu cyfrinachedd a gall y datgeliad fod yn ddefnyddiol i ddysgu yn y dosbarth.

- 4. Yn ystod gwrs am gamddefnyddio sylweddau mae person ifanc yn enwi unigolyn sy'n cyflenwi cyffur a reolir.**
 - Byddai'r swyddog yn rhwym i gymryd camau pellach am y wybodaeth hon.